# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 5 Tachwedd 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

2 Cwestiynau i Gynrychiolydd Comisiwn y Cynulliad

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** Beth oedd y Gweinidog wedi'i ystyried wrth ddewis ardaloedd i dreialu'r ddau fodel o ofal deintyddol y cyfeirir atynt yn Natganiad Ysgrifenedig y Gweinidog a wnaed ar 20 Hydref 2010. (WAQ56703)

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** Pa ystyriaeth a roddwyd i sir Benfro i dreialu'r ddau fodel o ofal deintyddol, ac ystyried amseroedd y rhestri aros yn y sir. (WAQ56704)

***Rhoddwyd ateb ar 09 Tachwedd 2010***

Galwyd am ddatganiadau o ddiddordeb gan bob darparwr deintyddol a Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) yng Nghymru gyda'r bwriad o ddewis hyd at 10 safle ar gyfer y ddau gynllun peilot. Derbyniwyd cyfanswm o 37 o geisiadau gan gynnwys pedwar gan BILl Hywel Dda, ac o'u plith roedd un practis yn hen ardal BILl Sir Benfro.

Ystyriwyd y ceisiadau yn erbyn meini prawf penodol gan banel a oedd yn cynnwys aelodau o weithgor y cynllun peilot deintyddol, gan ystyried ffactorau fel amddifadedd, mynediad, gwasgariad daearyddol ac na ddylai fod unrhyw risg o golled ariannol sylweddol i naill ai'r darparwr neu'r BILl. Roedd meini prawf ychwanegol yn cynnwys maint y contract a'r math o gontract; ansawdd gwaith monitro contract; llywodraethu clinigol; demograffeg; argaeledd adnoddau gweithlu BILl i gefnogi practisau; barn y practis ar gyfranogi; ac unrhyw bryderon penodol a allai fod gan BILlau. Roedd yn rhaid i bractisau hefyd allu anfon data yn electronig at ddibenion monitro a gwerthuso.

Yn dilyn y broses ddethol, roedd naw practis yn bodloni'r meini prawf yn llwyddiannus ac maent wedi'u dewis i gymryd rhan yn y rhaglen beilot.

## *Gofyn i Gynrychiolydd Comisiwn y Cynulliad*

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**: A wnaiff Comisiwn y Cynulliad amlinellu ei gynlluniau ar gyfer defnyddio lle gwag yn Adeilad y Pierhead. (WAQ56705)

***Rhoddwyd ateb ar 12 Tachwedd 2010***

**Lorraine Barrett AC, Comisiynydd y Cynulliad dros y Cynulliad Cynaliadwy:**

Yr oedd adnewyddu'r Pierhead, a gwblhawyd yn ystod tymor y gwanwyn 2010, yn canolbwyntio ar yr uchelgais i ddefnyddio'r adeilad rhestredig gradd 1 hwn mewn ffordd a fyddai'n argyhoeddi, cynrychioli ac ysbrydoli ac yn ei sicrhau fel canolfan ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd a'u cynnwys mewn trafodaethau. Yr oedd yr adnoddau a neilltuwyd ar gyfer y gwaith adnewyddu yn galluogi'r Cynulliad i weithredu fel gwarchodwr da i'r adeilad pwysig a hanesyddol hwn. Yr oedd y gwaith yn canolbwyntio ar wneud y mannau cyhoeddus yn yr adeilad yn fwy agored fel y gallent fod ar gael ar gyfer mynediad i'r cyhoedd a digwyddiadau cyhoeddus. Mae llwyddiant yr adeilad yn y cyswllt hwnnw i'w weld yn y niferoedd mawr o ymwelwyr (84,273 rhwng mis Mawrth a mis Hydref 2010), a galw sylweddol fel lle ar gyfer digwyddiadau addas.
Cyfran fechan o'r adeilad cyfan yw'r lle swyddfa yn y Pierhead, ac ni chafodd ei adnewyddu fel rhan o'r gwaith hwn. Yn y gorffennol câi ei ddefnyddio gan staff cyfathrebu allanol, sydd erbyn hyn wedi symud i Dŷ Hywel. Mae ychydig le swyddfa wedi ei ddarparu ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Comisiynydd Safonau, ac arferai gael ei ddefnyddio fel lle swyddfa ar gyfer staff Llywodraeth Cymru a oedd yn cynorthwyo Confensiwn Cymru Gyfan. Darperir nifer o ddesgiau a chyfrifiaduron ar gyfer staff y Comisiwn pan fyddant yn gweithio yn yr adeilad. Mae yna ychydig le gwag sy'n rhoi dewis i

Gomisiwn y Cynulliad allu bod yn hyblyg yn y dyfodol gan fod gweddill yr ystâd i gyd yn cael ei defnyddio.

O ran defnyddio'r lle swyddfa yn y Pierhead yn y dyfodol, mae'r Comisiwn yn dal y Pierhead fel rhan o'i swyddogaethau o ddarparu i'r Cynulliad yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau angenrheidiol at ddibenion y Cynulliad, ac i hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r system bresennol ac unrhyw system i ddod mewn llywodraeth ddatganoledig. Gall y Comisiwn "wneud unrhyw beth sy'n ymddangos iddo'n angenrheidiol neu'n briodol er mwyn cyflawni'r swyddogaethau (hynny) neu mewn cysylltiad â hwy."

Yn unol â'r gofynion hyn, yn ei gyfarfod ar 19 Mai 2010 cefnogodd Comisiwn y Cynulliad mewn egwyddor gynigiad ar gyfer menter ar y cyd rhwng y Comisiwn a Chanolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd. Dan y fenter honno byddai'r Ganolfan yn helpu i ddatblygu'r Pierhead fel fforwm ar gyfer trafod materion sy'n berthnasol i waith y Cynulliad, ac ar gyfer gwaith ymchwil annibynnol, gan gynnwys hefyd brifysgolion eraill Cymru. Er mwyn sicrhau llwyddiant y Fenter hon, byddai'r Ganolfan yn cael defnyddio lle swyddfa gwag yn y Pierhead ar gontract, heb gost ychwanegol i'r Comisiwn. Byddai'r cynnig hwn yn golygu rhaglen o weithgareddau wedi'i chytuno a diffinio digwyddiadau gan y naill ochr a'r llall.

Mae staff y Comisiwn yn dal i ystyried a thafod manylion y cynnig hwn. Maent hefyd yn ceisio cyngor pellach am werth rhentu, a'r farchnad debygol ar gyfer lle gwag. Er hynny nid yw hyn yn awgrymu, o gofio'r fframwaith cyfreithiol y mae'n rhaid i'r Comisiwn weithredu o'i fewn wrth ddelio ag asedau fel y Pierhead, y byddai'r Comisiwn yn rhydd i wneud trefniadau hollol fasnachnol gyda phrynwyr posibl. Mae hwn yn fater y byddai angen cael cyngor pellach amdano, gan gynnwys cyngor cyfeithiol penodol, pe bai unrhyw drefniant o'r math hwnnw'n dod yn bosibilrwydd ymarferol.